

GAEAF 2025
RHIFYN 33
ubc.cymru



⁴ **Negesydd**



Cenhadaeth: Y Diwygiad Tawel
Ton o Weddi o Dde Corea
Glyn Nest: 55 Mlynedd
a mwy...

Mae'r oes yr ydym ni'n byw ynddi yn un ddiddorol iawn - ar yr un llaw, mae poen ac ing y byd yn ein dwysbigo gymaint ag erioed. Ar yr un pryd, mae straeon o'r Arglwydd ar waith yn trawsnewid bywydau a chymunedau mewn ffyrdd rhyfeddol - ar draws y byd, ac yng Nghymru - yn anogaeth mor fywiol ag erioed.

Yn y rhifyn hwn o'r Negesydd, clywn am brofiadau sydd yn cyffwrdd ar y ddau begwn: ing y byd hwn, a rhyfeddod gwaith yr Arglwydd yn y canol...



Un o fy hoff lyfrau yn y Beibl yw **efengyl Ioan**. Mae'r ffordd gyfoethog, ac eto mor syml y mae Ioan yn rhoi geiriau i'w ddatguddiad am berson Crist yn parhau i fy llenwi â rhyfeddod, a synnwyr o ddirgelwch, ar yr un pryd ag adnabyddiaeth ddyfnach o'r Arglwydd. Un o'r adnodau rhyfeddol ar ddechrau ei efengyl yw: "Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd. Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu." Ioan 1:4-5.

I'm golwg i, mae'r geiriau hyn fel petaent yn disgrifio mor berffaith y byd yr ydym yn byw ynddo, pan ydym yn edrych ar y byd o safbwynt bydolwg Cristnogol. Mae'r geiriau hyn yn cyfleu mai **Iesu yw goleuni'r byd**, a'n goleuni ni fel pobl a grëwyd gan Dduw ar gyfer perthynas gydag Ef ei hun - perthynas sydd yn bosib trwy'r Arglwydd Iesu. Ar yr un pryd, mae'r geiriau hyn hefyd yn nodi mai i dywyllwch y mae'r goleuni yn llewyrchu: h.y mae ein byd ni *go iawn* mewn tywyllwch ysbrydol.

Yn y rhifyn hwn o'r Negesydd, cyffyrddir ar rai o'r sefyllfaoedd tywyll hyn yn ein byd: y boen a'r ing sydd yn parhau yn y Dwyrain Canol (tud. 7), a'r boen a chaledi y gwelwn ar ein strydoedd ein hunain ble mae digartrefedd yn parhau mor wael (tud. 4). Ar yr un pryd, yng nghanol y sefyllfaoedd hyn, gwelwn sut **mae goleuni Crist yn tywynnu mewn ffyrdd hyfryd** i'w canol wrth i frodyr a chwiorydd yng Nghrist weithredu yn Ei enw ac yn nerth yr Ysbryd Glân i gyrraedd y colledig a'r briwiedig. Ac, wrth gwrs, ar ôl cyfnod mor hir o oerfel ysbrydol yng Nghymru, mae **adroddiadau am bobl ifanc** yn dod i ffydd mewn ffyrdd a graddfa newydd (tud. 3 a 6) yn parhau i'n hannog - a'n hysgogi i weithredu a 'chamu allan' mewn ffydd (tud.3)! Llawenhawn hefyd am y rhai sydd wedi derbyn galwad i dywynnu goleuni Crist i'n cymunedau fel **gweithwyr cenhadol** - boed y rheiny'n rhai newydd (tud. 6) neu'n weithwyr a dderbyniodd yr alwad sbel yn ôl i weithio er lles y Deyrnas (tud.8)! Hyfrydwch yw clywed sut y gwnaeth goleuni Crist gyffwrdd â chalon Mrs Bonni Davies fel merch ifanc - a hithau wedi bod yn ffyddlon yn tywynnu Ei oleuni trwy ei gwaith gyda'r UBC hyd heddiw dros ddeunaw mlynedd! Byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr.

Yng Nghrist,

Sioned Graves (Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu)

CENHADAETH:

Y Diwygiad Tawel

Sioned Graves sydd yn cynnig ei myfyrdodau am yr awr genhadol yr ydym yn byw ynddi wrth i nifer gynnig adroddiadau am 'Y Diwygiad Tawel' ar draws y Deyrnas Unedig. Edrycha ar hanes 1 Brenhinoedd 18, a gofyn y cwestiwn: sut y dylwn ymateb?

'Dywedodd y llanc, "Mae yna gwmwl bychan fel cledr llaw yn codi o'r môr." Yna dywedodd Elias wrtho, "Dos, dywed wrth Ahab, 'Gwna dy gerbyd yn barod a dos, rhag i'r glaw dy rwystro.'

1 Brenhinoedd 18:44

Penwythnos diwethaf, roeddwn i a'm gŵr i fyny ar lethrau Carn Ingli. Cawsom y profiad o weld un o ffryntiau mawr y Gorllewin yn cau i fewn. Fe wnaeth yr hyn a ddechreuodd gyda chymylau bach gwyn droi'n wynt cryf, ac erbyn y noson ganlynol, dyma law trwm yn cau'n llen dros y tir i gyd. Os ydych chi erioed wedi arsylwi ar un o ffryntiau'r lverydd yn dynesu, byddai'n hawdd i chi ddychmygu'r olygfa yn 1 Brenhinoedd 18. Y cyd-destun yma yw bod Israel wedi bod trwy gyfnod o sychder, felly byddai ymddangosiad glaw yn destun rhyfeddod. Er nad yw Elias yn gweld y cwmwl gyda'i lygaid ei hunan, mae adroddiad ei was bod cwmwl yn codi o'r môr yn ei ysgogi i weithredu yn syth. Pam felly?

Darllenwn yn yr adnodau cynt ei fod yn penlinio mewn osgo weddigar. Efallai ei fod yn ymateb felly am fod Duw eisoes wedi rhoi ffydd iddo bod glaw yn wir yn dod. Ffydd yw'r 'dystiolaeth sicr o realiti beth dŷn ni ddim eto'n ei weld.' (Heb 11:1).

Bûm mewn cyfarfod yn ddiweddar pan glywsom yr hanes hwn yn cael ei ddarllen mewn perthynas ag adroddiad 'Y Diwygiad Tawel'. Prif gasgliad yr adroddiad gan Gymdeithas y Beibl yw bod degawdau o 'ddirywiad' ar draws eglwysi'r DU wedi dechrau newid cyfeiriad yn ôl yr ystadegau. Efallai un o'r casgliadau mwyaf calonogol oedd yr arsylwad mai pobl ifanc ('Gen Z') sydd yn arwain y newid hwn. Yn ôl yr adroddiad, fe wnaeth y nifer o bobl 18-24 oed oedd yn mynychu'r eglwys yn rheolaidd godi o 4% i 16% rhwng 2018 a 2024. Tybed a ydym yn gweld cwmwl yn codi o'r môr yn ein hinsawdd ysbrydol heddiw? Beth bynnag yw ein safbwynt ni – os ydym ni'n gweld newid neu 'ddiwygiad' yn

ein cyd-destun lleol ai peidio – tybed a yw'r adroddiadau hyn yn ein hysgogi ni i ymateb mewn ffydd, fel y gwnaeth Elias?

A sut y gwnawn ni hynny?

Un peth y gallwn wneud, fel Elias yn yr hanes, yw bod mewn osgo gweddi. Mae'r alwad i weddio ac i eiriol am y bobl o'n cwrmpas sydd angen newyddion da yr efengyl yn aros yr un mor allweddol ag erioed.

Rhywbeth arall allen ni wneud yw dechrau gweithredu mewn ffydd, ar sail ein cred mai Duw byw sydd gennym – a'i fod E 'ym musnes achub'! Mae'n debyg bod yr ystadegau am bobl ifanc yn aml yn cael eu cadarnhau gan adroddiadau gan nifer o eglwysi sydd yn gweld pobl ifanc yn cael eu denu i ffydd – ac yn aml yn 'troi i fyny'. Un o'r pethau a allwn ni wneud yw gofyn y cwestiwn - a fyddai ein heglwysi ni yn barod i groesawu pobl newydd fel hyn petaent yn dod?

Ar yr un pryd, mae'r alwad i estyn y tu allan i'r eglwys yr un mor allweddol ag erioed, os nad yn fwy pwysig yn yr awr sydd ohoni. Fe ryddhawyd adroddiad gan Scripture Union yn ddiweddar am blant 'Gen Alpha' a ddarganfu bod 80% ohonynt yn credu ym modolaeth Duw, ond dim ond 7% oedd yn mynychu'r eglwys yn rheolaidd. Pan ofynnwyd sut yr hoffent ymwneud â gweithgaredd fyddai'n eu helpu i ddysgu am Dduw, nid 'mynd i'r eglwys' oedd eu hoff ddewis o bell ffordd, ond mynychu gweithgareddau perthnasol am ffydd yn eu cartrefi, y tu allan, mewn neuaddau chwaraeon, mewn caffi ac ati! Er bod plant a phobl ifanc yn agored iawn i ffydd yn yr oes hon, mae'r alwad i 'gamu allan' o'r eglwys mewn ffyrdd creadigol i gwrdd â'r genhedlaeth iau ble maen nhw yn parhau yr un mor bwysig.

Mae'r alwad hon yn wir i bob oed hefyd: darganfu adroddiad 'Y Diwygiad Tawel' y byddai 56% o bobl nad ydynt yn mynychu'r eglwys yn agored i ffrind Cristnogol i weddio gyda nhw petaent yn cynnig! Pam na fyswn, felly, fel Elias, yn dechrau ymateb wrth glywed yr adroddiadau am law - a dechrau symud mewn ffydd?

"Pam na fyswn... fel Elias, yn dechrau ymateb wrth glywed yr adroddiadau am law - a dechrau symud mewn ffydd?"



CANOLFAN GLYD Y TABERNAACL

Does dim amheuaeth bod Tabernacl yr Ais wedi'i fendithio gyda lleoliad arwyddocaol yng nghanol y brif-ddinas. Cyda'r lleoliad daw heriau, gan gynnwys y cwestiwn: 'Sut wnawn ni ddefnyddio'r lleoliad arbennig hwn i estyn allan i'r rhai sydd ar ein stepen ddrws gyda chariad Duw?'

Ar y cychwyn, dechreuodd Canolfan Glyd y Tabernacl gyda rhyw 6-8 o oedolion oedd yn dod i'r festri am gwmni a chinio cynnes ddwywaith yr wythnos. Yn fuan iawn, tyfodd y gwaith, ac aeth hi'n her i drefnu bod bwyd ar gael

Dyna un o'r cwestiynau allweddol y bu'r eglwys yn ymaflyd ag e dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig gyda'r deinamig mai eglwys Gymraeg ei hiaith ydyw, ond hefyd gyda gwir ddymuniad i estyn allan at bwy bynnag sydd ar eu stepen ddrws.

Dechreuodd hadau'r ateb i'r cwestiwn hwnnw gael eu plannu ychydig o flynyddoedd yn ôl. Pan ddaeth y Parch. Ddr. Rosa Hunt yn gyntaf i Gaerdydd i weithio gyda Choleg y Bed-yddwyr, byddai hi'n dechrau ei thaith trwy'r ddinas yn gynnar yn y bore, ac yn gweld nifer o bobl ddigartref ar hyd strydoedd canol y dref. Gweddiodd hi weddi syml, ond dyngedfennol: 'Os wnei di roi cyfle i fi wneud rhywbeth, Arglwydd, bydda i'n ei wneud.'

Ychydig o flynyddoedd yn ddiweddarach, cafodd Rosa ei gofyn gan eglwys y Tabernacl a fyddai hi'n ystyried dod atyn nhw fel gweinidog. Cadarnhawyd yr alwad, a daeth hi i'r Tabernacl ym mis Medi 2022. Roedd y cyfnod hwnnw yn un allweddol yn y byd ehangach, wrth i'r wlad ddod allan o'r pandemig, a chostau nwy wedi saethu i fyny. Yn ystod y cyfnod hwnnw, fe wnaeth llywodraethau ofyn i eglwysi ystyried agor canolfannau 'clyd' – mannau cynnes ble fyddai pobl yn gallu dod a threulio amser mewn lle diogel, cynnes.

Yn fuan, daeth hi'n amlwg bod cyfle unigryw ac arbennig gan y Tabernacl i allu cynnig gwasanaeth fel hyn yng nghanol y ddinas – ac adeiladu ar waith arbennig eglwysi iaith Gymraeg Caerdydd cyn hynny a fu'n gweinidogaethu i'r digartref. O ganlyniad, dechreuodd gweddi Rosa – a chwestiwn yr eglwys - gael eu hateb!

iddynt bob wythnos! Roedd rhaid gofyn: 'Sut allen ni gynnal y twf hwn?' Ar ôl gwthio ar nifer o ddrysau, daeth yr ateb o gyfeiriad annisgwyl iawn.

Roedd aelodau'r Tabernacl wedi sylwi bod byrddau'r bwyty Eidaleg drws nesaf wedi dechrau cael eu gosod o flaen gatiâu'r capel ar y brif stryd. Aeth Rosa i gael gair – ac fe drodd sgwrs a allai fod wedi bod yn chwithig braidd i fod yn un "hyfryd"! Cynigiodd Rosa weddi, a rhannodd y perchennog ei fod yn dymuno coginio prydau o fwyd i'r bobl ddigartref oedd yn dod i'r Ganolfan Glyd

A dyna ddigwyddodd! Bwyty Giovanni's sydd wedi bod yn darparu bwyd o'r safon uchaf i bobl ddigartref Caerdydd yn y Ganolfan Glyd ers tair blynedd – a hynny am ddim! Mae'r Ganolfan bellach yn llawn bwrlwm bob Mercher a Sul, a chriw mawr o wirfoddolwyr yn cydweithio ar draws eglwysi Cymraeg Caerdydd i ganiatáu ei bod yn rhedeg yn llyfn. Pan ofynnir i Rosa a ydy'r Ganolfan Glyd hefyd yn agor cyfleoedd i siarad am ffydd, yr ateb yw: "Wrth gwrs!". Mae nifer yn gofyn am weddi, ac yn teimlo eu bod yn gallu siarad yn agored am ffydd gyda'r rhai sydd yn gwasanaethu yno, er bod nifer ohonynt wedi mynd trwy brofiadau eithriadol o anodd. Yn wir, nid canolfan 'glyd' o ran adeilad yn unig yw hon – ond lle cynnes sydd yn tywynnu cariad Iesu yng nghanol y brifddinas.

"Dechreuodd gweddi Rosa - a chwestiwn yr eglwys - gael eu hateb!"

TON O WEDDI O DDE COREA

*Yr haf hwn, 120 mlynedd ar ôl i genhadon o Gymru gael eu hanfon i Asia, fe wnaeth ton o weddi a chenhadaeth ddychwelyd i Gymru. Dyma fyfyrddodau y **Parch. Neil Warburton** am ymweliad arbennig o Dde Corea...*



Cawsom y fraint hyfryd eleni o groesawu Tîm Gweddi Cenhadol o Dde Corea ym mis Gorffennaf. Cyflwynwyd y tîm i ni gan unigolion sydd wedi bod yn croesawu timau tebyg am ychydig o flynyddoedd erbyn hyn. Fe esboniwyd i ni y cafodd y timau eu hanfon i Gymru mewn ymateb i ymdrech Cymreig 120 mlynedd yn ôl, pan gafodd cenhadon Cymreig eu hanfon i Dde Corea i hau gair Duw. Mae'r Coread eu hunain yn teimlo dyled o ddiolchgarwch i'r eneidiau dewr hynny, gyda rhai ohonynt yn colli eu bywydau i sefydlu yr Eglwys Gristnogol yng Nghorea.

Fe wnaeth y tîm o 12 gyrraedd yn oriau man y bore ar yr 8^{fed} o Orffennaf, gan wneud eu cartref yn ddewr yn festri'r

eglwys am yr wythnos nesaf, ble bydden nhw'n cysgu ar welyau dros dro, cymryd cawodydd yn y ganolfan hamdden leol, a bwyta'r bwyd a goginiwyd iddyn nhw gan ein tîm arbennig o fenywod. Fe wnaeth Bethel sefydlu rhaglen o ymweliadau ar gyfer y tîm, gan gynnwys ymweld â'r ysgolion cynradd lleol. Wrth iddynt wneud hynny, cawsom syndod i ddarganfod bod nifer o'r bobl ifanc yn gwybod mwy am ddiwylliant Corea trwy K-Pop a Gemau Squid nag oedden nhw'n gwybod am Iesu a'r Beibl!

"Mae'r Coread... yn teimlo dyled o ddiolchgarwch i'r eneidiau dewr hynny..."

Roedd cyfle i ni hefyd ymweld ag eglwys eraill lleol, a rhannu mewn gwasanaeth yn St Mary's, ac amser o weddi yn Hermon. Fe wnaethom ni hefyd gyflwyno'r tîm i gyngor lleol y dre, oedd yn ymddiddori yn rheswm eu hymweliad. Fe wnaeth aelodau'r cyngor rannu hanes byr am eu rhesymau eu hunain yn helpu'r gymuned, ac roedd cyfle i ni weddio drostyn nhw yn eu rôl a'u cyfrifoldebau.

Yr hyn nad oeddem ni'n disgwyl oedd y cyfarfodydd gweddi a gynhaliwyd bob nos rhwng 7 a 9 yh. Profwyd nad oedd y Coread yn geidwadol yn eu gweddi, ond yn daer, yn angerddol, ac yn uchel iawn! Roedd hi'n dda gweld mor angerddol oedden nhw ym mhethau Duw, am Ei gyfiawnder, ac am i Deyrnas Dduw gael ei hadfer yma yn Abergwaun. Pe na bai hyn yn ddigon, ar ôl egwyl fach, bydden nhw wedyn yn parhau mewn gweddi tan

ganol nos! Fe wnaeth y tîm deithio o Dde Corea ar eu traul eu hunan, a nifer ohonynt yn cymryd amser i ffwrdd o'u hastudiaethau a'u gwaith. Teimlais i mi gael fy herio mewn ffordd

ddofn gan eu haelioni, yn ogystal â'u degwm ychwanegol i'r eglwys pan oedden nhw yn barod wedi rhoi mewn ffordd mor hael. Tybed a ydw i, fel yn stori dernyn y wraig weddw yn y Beibl, yn rhoi o'm digonedd yn hytrach na phopeth sydd gen i ym mhethau Duw?

"Tybed a ydw i... yn rhoi o'm digonedd yn hytrach na phopeth sydd gen i ym mhethau Duw?"

Bu llawer o ddagrau ar eu hymadawiad, wrth i Eglwys Bethel dderbyn llun o "linyn tair cainc" gyda nifer o negeseuon wedi eu hysgrifennu wrth law. Fel eglwys, teimlon ni wir fendith o'r profiad, a hyder bod gan Dduw Ei law ar Bethel ac ar ei gweinidogaeth i Abergwaun i'r dyfodol.



Glyn Nest: Dathlu 55 mlynedd!

Y mis Medi hwn, cafwyd wythnos arbennig o ddathliadau yn nodi 55 mlynedd ers agor Cartref Gofal Glyn Nest.

Fe wnaeth y weledigaeth ar gyfer cartref henoed Bedyddiedig ddechrau yn yr 1940au gyda grŵp o fenywod a welodd yr angen ar gyfer hafan gartrefol ei naws a Christnogol ei hawyrgylch. Fe wnaeth eu gweledigaeth ddod yn realiti pan agorwyd y cartref yng Nghastell Newydd Emlyn ar y 26ain o fis Medi 1970.

Eleni, marciwyd y diwrnod hwnnw gyda dwy oedd yn bresennol ar y diwrnod hwnnw 55 mlynedd yn ôl. Cafodd y ddwy - Mrs Beti Thomas a Mrs Bonni Davies - yr anrhydedd o dorri teisen arbennig i ddathlu. Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau arbennig trwy'r wythnos, gyda'r deiliaid, staff, ffrindiau i'r cartref, a nifer o aelodau teulu i'r deiliaid yn bresennol trwy'r wythnos. Uchafbwynt oedd croesawu Dafydd Iwan a ddechreuodd y dathliadau gyda detholiad o ganeuon poblogaidd – ac wrth gwrs, canu 'Pen-blwydd Hapus' i'r cartref!

Ffarwél i Mrs Bonni Davies...

Ar ddiwedd mis Hydref 2025 byddwn yn ffarwelio â Mrs Bonni Davies, yn dilyn deunaw mlynedd o wasanaeth ffyddlon a chydwybodol i Undeb Bedyddwyr Cymru.

Rydym yn hynod ddyledus i Bonni am ei gwaith aruthrol dros yr Undeb a'r Gorfforaeth fel ei gilydd.

Yma y mae neges o ddiolch i Mrs Bonni Davies ar achlysur ei Negesydd olaf cyn ei hymddeoliad:



Fe wnaeth dathliadau eraill gynnwys trefnu blodau, Parch. Sian Elin a Sonia yn arwain karaoke, caneuon gan gôr Ysgol Gyfun E!mlyn, a "Glyn Nest Has Got Talent"! Hoffai'r cartref ddiolch i bawb a gyfrannodd at wythnos mor arbennig o ddathliadau, ac i bawb a roddodd mor hael i'w casgliad i Macmillan Cancer Care.

Ar achlysur eich ymddeoliad fel Cynorthwy-ydd Personol i Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru, hoffem fynegi ein diolch diffuant a'n gwerthfawrogiad dwfn fel Undeb o'ch gwaith ffyddlon dros gymaint o flynyddoedd, gan ddechrau yn y swydd nôl yn 2007.

Rydych wedi dangos ymroddiad a gofal arbennig ym mhopeth a wnaethoch, gan gyfrannu'n helaeth at fywyd a gwaith yr Undeb. Mae eich trefn a'ch trylwyrdd, a'ch parodrwydd i helpu eraill wedi bod yn fendith i bawb a gafodd y ffrind o gydweithio gyda chi.

Dymunwn i chi bob bendith a llawenydd. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gofio'n hir, a bydd eich esiampl o wasanaeth ffyddlon yn parhau i ysbrydoli. Diolch o galon am eich llafur diflino a'ch ymrwymiad dros flynyddoedd lawer.

Gyda'n dymuniadau gorau ni 'gyd,

Rob Nicholls, Llywydd Adran Cymraeg Undeb Bedyddwyr Cymru

Pobl Ifanc â Ffydd!

Wrth i adroddiadau ar draws y DU ddatgan bod yna gynnydd yn y bobl ifanc sydd yn agored i'r ffydd Gristnogol, clywn adroddiadau ar draws deulu UBC sydd yn pwyntio at egni newydd ymhlith cenedlaethau iau.

Yr Hydref hwn, clywsom am nifer o bobl ifanc a fuodd yn **cael eu bedyddio** yn ein heglwysi – gan gynnwys pedwar person ifanc yn eglwys y Tabernacl, Caerdydd ym mis Medi. Yn y Dre Newydd, defnyddiwyd y fedyddfa am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn: eto, i fedyddio merch ifanc yn y capel - ar yr un Sul! Yr Hydref hwn hefyd, gwelwyd y nifer fwyaf o bobl ifanc yn cofrestru diddordeb ym **mhenwythnos ieuenctid Esgyn** hyd yma – 61 o bobl ifanc (a rhestr aros!). Bydd y trydydd penwythnos ieuenctid yn cael ei gynnal ar y 21ain - 23ain o Dachwedd eleni yng Nghanolfan Rock UK, Treharris.

Dathlu 75 Mlwyddiant: Cyngor EBF Amman

Judith Morris sydd yn adrodd yn ôl o'i phrofiad yn ymuno â Cyngor Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop (EBF) yn Amman ym mis Medi.

Eleni, cyfarfu Cyngor Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop, y Dwyrain Canol a Chanolbarth Asia yn Amman, yr Iorddonen o 23-26 Medi a hynny yng nghysgod y rhyfel rhwng Gaza ac Israel. Thema'r gynhadledd oedd 'Woven Together for Peace' a'r brif ffocws oedd y Dwyrain Canol. Daeth cynrychiolaeth gref ynghyd o bob rhan o'r rhanbarth ac am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn, roedd cynrychiolwyr o Syria a Rwsia yn bresennol.

Cynhaliwyd cyfarfodydd diwinyddol ar ddechrau'r gynhadledd oedd yn cynnwys sesiynau ar "Bregethu o'r Hen Destament" gan Yohanna Katanacho, Nazareth; "Arwyddocâd Cyfredol Diwinyddiaeth Fedyddiedig o'r 17garfif" gan Rami Halaseh, Iorddonen; "Hunaniaeth Fedyddiedig", gan Toivo Pilli, Estonia; "Dealltwriaeth Fedyddiedig o Ryddid" gan Tony Peck, Lloegr ac "Arglwyddiaeth Crist a Hunaniaeth Fedyddiedig mewn Byd Toredig" gan Anna Robbins, Canada. Roedd pob diwrnod yn dechrau gydag Astudiaeth Feiblaidd cwbl ysbrydoledig o dan arweiniad Yohanna Katanacho.

Gweinidogion Cenhadol Newydd

Llawenhawn fod nifer wedi derbyn galwad eleni i fod yn weinidogion cenhadol.

Croesawn Ruth Kitchell, Nikki Wheeler, Donna Georga, a Morwenna Thomas wrth iddynt ddechrau hyfforddiant fel gweinidogion cenhadol gyda UBC. Croesawn yn ôl Jon Birch a gafodd ei apwyntio eleni fel Strategydd Cenhadol yng Nghymanfa Gwent. Nodwn hefyd bod Cadwyn Teifi, elusen sydd yn rhannu'r newyddion ymhlith ysgolion dyffryn Teifi wedi apwyntio Mike Winters, un o oedolion ifanc eglwysi UBC. Bydd Mike hefyd yn parhau yn ei rôl yn Seion, Llanelli.

NEWYDDION
ar draws y byd



Yn ystod y gynhadledd daeth cyfnod y Llywydd, Mateusz Wichary (o wlad Pwyl) i ben ac am y tro cyntaf erioed yn hanes y Ffederasiwn urddwyd Llywydd Arabaidd, sef Dr Charlie Costa. Yn ei anerchiad, cyfeiriodd at y modd yr oedd y Ffederasiwn yn gyfrwng ar gyfer cydweithredu rhwng Bedyddwyr o'r gwahanol wledydd ar draws y Rhanbarth. Mae'n wir nad oedd pawb yn cytuno ar bob mater ond yr oedd yr hunaniaeth Fedyddiedig yn galluogi pob un i gydweithio ac i ymateb yn gadarnhaol i alwad Duw drwy ganolbwyntio ar Genhadaeth, Plannu Eglwysi, Addysg a Diwinyddiaeth, Cyfiawnder Cymdeithasol, Menywod, Ieuenctid a Phlant a Chymorth Dyngarol. Yn sicr llwyddodd y gynhadledd i ganolbwyntio ar yr awydd a'r angen i fod yn genhadon effeithiol ac i fod yn gyfryngau tangnefedd mewn byd rhanedig a thoredig yn enw ein Harglwydd Iesu.

Dod i nabod...

Bonni Davies

Yn y rhifyn arbennig hwn o 'Dod i Adnabod', clywn fyfyr fodau Mrs Bonni Davies wrth iddi gofio yn ôl dros ddeunaw mlynedd yn gweithio i Undeb Bedyddwyr Cymru...



Rydych chi'n ferch o Sir Benfro, ac fe wnaethoch chi dyfu i fyny yn mynd i Eglwys y Bedyddwyr Bethlehem yn Sir Benfro. Allech chi ddweud tipyn wrthyn ni am eich magwraeth?

Merch o sir y 'wês, wês' ydw i, wedi fy magu ers yn ifanc iawn yn nhref glan y môr Trefdraeth, lle roedd fy rhieni yn aelodau ffyddlon o eglwys y Bedyddwyr Bethlehem. Dwi'n hynod ddiolchgar fy mod wedi cael fy magu ar aelwyd grefyddol. Dwi'n ystyried fy hunan yn un o blant "EJ", sef y Parchedig E J Williams a ddaeth yn weinidog i Fethlehem pan oeddwn yn 6 mlwydd oed ac a fu yno tan roeddwn yn 15 oed - cyfnod pwysig ac allweddol yn fy mywyd. Roedd rhywbeth ymlaen yn festri Bethlehem bob nos o'r wythnos ag eithrio nos Sadwrn a thrwy hyn i gyd, minnau'n cael fy magu yn swm yr Efengyl.

Bu'r fagwraeth yma'n allweddol, wrth i minnau'n 13 oed, deimlo i Dduw siarad â fi drwy ei emynau, a minnau wedyn yn penderfynu mynd trwy ddyfroedd bedydd a dilyn Iesu. O'r dydd hwnnw ymlaen, beth bynnag fyddai'n digwydd i mi, roeddwn yn sicr y byddai Ef yn gydymaith i mi ym mhob achlysur ac yn rhywun y gellid troi ato ar unrhyw awr o unrhyw ddydd. Mor hyfryd wedyn oedd cyfarfod â Vivian y gŵr ac yntau'n rhannu'r un gwerthoedd ac yn aelod ffyddlon yng Nghapel Caersalem. Ymunais ag ef yn yr eglwys honno lle bedyddiwyd ein tri phlentyn, a lle bedyddiwyd hefyd bump o'm hwyrion!

Sut ddaethoch chi i weithio i'r Undeb wedyn?

Gweithio yn y banc oeddwn i pan pan briodes i, ond bues i'n ffodus iawn, a minnau wedi priodi ffermwr, i gael aros adref i fagu'r plant. Dim ond wedi i'r plant dyfu, a'r mab i adael ysgol i ffermio, y

penderfynais fynd nôl i weithio – yn y banc am gyfnod byr, yna am naw mlynedd gyda phapur lleol. Roeddwn yn parhau i weithio gyda'r papur pan glywais yng Nghyfarfodydd Blyneddol yr Undeb yn 2007 bod y swydd Cynorthwydd Personol i Ysgrifennydd Cyffredinol UBC yn mynd. Roeddwn yn gwybod yn syth mai dyma oedd 'swydd fy mreuddwydion'. Roedd fy ngwyliau bron i gyd yn cael eu cymryd i fyny i fynd i gyfarfodydd a phwyllgorau Cymanfa, Glyn Nest, Senana ac ati ac roedd hyd yn oed y Golygydd yn meddwl fod y swydd wedi cael ei gwneud ar fy nghyfer! Ymgeisiais amdani a bod yn ddigon ffodus i'w sicrhau, gan ddechrau yn Nhŷ Ilston ar 1af Tachwedd 2007.

Oes pethau yn sefyll allan wrth i chi feddwl am eich amser yn gweithio i'r Undeb?

Bu'n ffrainc ac yn anrhydedd arbennig iawn i gael gweithio i'r Undeb am gyfnod o ddeunaw mlynedd. Gwerthfawroga'r fawr fy mod, yn rhinwedd fy swydd, wedi cael y fath gyfle i gyfarfod â chymaint o weinidogion a gweithwyr diwyd yr enwad. Rwy'n ddiolchgar iawn hefyd am gael cydweithio'n hapus gyda holl staff yr Undeb, mewn awyrgylch hyfryd, ofalus a chariadus. Byddwn yn ffrindiau am oes. Yn fwyaf arbennig, diolchaf am y ffrainc fawr a gefais o gael cydweithio gyda dau Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb – y Parchg. Peter Thomas a'r Parchg. Judith Morris - braint na fyddaf byth yn ei anghofio. Dros gyfnod o ddeunaw mlynedd ni allaf ddechrau mesur y bendithion a dderbynais wrth gyflawni'r gwaith. Cefais fendithion rif y gwlith a diolchaf i Dduw a'i fab, a fu farw drosom, am bob un ohonynt.

Diolch o galon, Bonni!